Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Clydau

**Tegryn**
**Llanfyrnach**
**Sir Benfro**
**SA35 0BE**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Clydau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Clydau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 44 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 31.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 29.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/09/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Clydau yn gymuned hapus, ofalgar a chroesawgar. Mae pwyslais amlwg ar barchu eraill ac i sicrhau’r safonau lles gorau posibl ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion yn barchus a chwrtais dros ben. Mae diwylliant cryf o ddiogelu yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau iaith, rhifedd a digidol. Maent yn cymhwyso’r medrau hyn yn briodol ar draws ystod o gyd-destunau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau creadigol a chorfforol, ac yn dangos agweddau cadarn at weithgareddau corfforol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn meithrin perthynas weithio gartrefol a chefnogol iawn gyda’r disgyblion. Maent yn fodelau iaith da ac yn cefnogi disgyblion i adalw dysgu blaenorol yn effeithiol. Mae staff yn darparu cwricwlwm sydd yn gwneud defnydd bwriadus o’r ardal leol ac sy’n ennyn diddordeb a thanio dychymyg bron bob disgybl. Ar brydiau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn herio ychydig o’r disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu, yn enwedig y rhai mwy abl. Pan gaiff disgyblion y cyfle, maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ac yn gwella eu gwaith yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw’r adborth i ddisgyblion yn canolbwyntio’n ddigon penodol ar agweddau pwysig sydd angen eu gwella. O ganlyniad, yn rhy aml, nid yw disgyblion yn gwybod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd yn blaenoriaethu mynediad cyfartal at les, hapusrwydd a’r profiadau dysgu gorau ar gyfer pob disgybl. Mae’r weledigaeth hon wedi ei rhannu’n bwrpasol â disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol. Cefnogir y pennaeth yn ymroddgar iawn gan dîm bach o staff. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae’r corff llywodraethol yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn angerddol wrth ymroi i’w cyfrifoldebau. Maent yn darparu cefnogaeth bwrpasol i arweinwyr a staff yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith

A2 Sicrhau her briodol ar gyfer pob disgybl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yr ysgol gyda medrau sy'n is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu cam datblygiad, yn enwedig eu medrau Cymraeg. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau corfforol cryf yn fuan trwy amrediad o brofiadau pwrpasol yn yr ardaloedd dysgu, y tu mewn a thu allan.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eu cyfoedion ac oedolion ac yn ymateb yn briodol gan ddefnyddio iaith a thôn llais addas. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd perthnasol wrth ddatblygu eu medrau siarad. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i'w siarad wrth fwynhau eu dysgu, er enghraifft wrth iddynt ganu caneuon ac ymateb i storïau. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gyda datblygu geirfa a gwybodaeth am batrymau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol sy'n llesteirio eu hyder i siarad yn gynyddol rugl.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o seiniau llythrennau a grwpiau o lythrennau yn bwrpasol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau darllen yn hyderus ac yn mwynhau darllen ystod berthnasol o lyfrau a thestunau digidol. Mae uwch fedrau darllen y disgyblion hynaf yn datblygu'n fuddiol, er enghraifft wrth iddynt gywain gwybodaeth am y bardd Waldo yn ystod eu prosiectau 'Dysgu Difyr'.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol ac yn eu cymhwyso'n briodol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer ffurfio llythrennau ac ysgrifennu eu henwau gan ddefnyddio ystod o adnoddau defnyddiol yn yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan. Ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn hyderus wrth lunio ystod o gwestiynau diddorol; er enghraifft, maent yn awyddus i holi ffermwr sy'n gweithio'r tir ar gychwyn yr ugeinfed ganrif. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cynnwys iaith ddychmygus wrth iddynt ddrafftio portread o aelod o'r teulu, er enghraifft. Yn gyffredinol, nid yw cyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion yn briodol i'w hoedran; er enghraifft, mae llythrennau wedi eu ffurfio'n anghywir yn aml, a thablau rhifedd wedi eu llunio'n ddiofal.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau mathemategol. Ar gychwyn eu hamser yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod rhifau hyd at 10 ac yn cynrychioli rhifau mewn amryw ffyrdd buddiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datblygu eu medrau cyfrifo yn y pen wrth ddyblu rhifau syml yn hyderus. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn arbrofi'n fentrus gyda dulliau amgen o luosi rhifau dau ddigid. Ar y cyfan, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn bwrpasol ar draws y mwyafrif o feysydd y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cyflwyno graffiau'n llwyddiannus i gynrychioli

canlyniadau ymholiad wrth ddarganfod y berthynas rhwng hyd cysgod a phellter gwrthrych o ffynhonnell oleuni.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu’n briodol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau codio cynnar wrth gyfarwyddo crwydryn i ddilyn llwybr penodol. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae llawer yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng i hybu lleihau gwastraff. Maent yn mewnforio lluniau pwrpasol a thestun deniadol er mwyn dal sylw’r gynulleidfa yn hyderus.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystod o gyfryngau ar gyfer efelychu gwaith Kadinsky, Monet a Kyffin Williams. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo yn eu gwaith gorffenedig sy’n cael ei arddangos yn ddeniadol ar furiau’r dosbarth.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at weithgarwch corfforol. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau addysg gorfforol ac yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau. Maent yn dangos parch at ei gilydd a rheolau’r gweithgareddau. Mae’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau rheoli pêl yn bwrpasol yn fedrus yn ystod y sesiynau hyn.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, deuluol a gofalgar. Mae’r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn canolbwyntio ar sicrhau’r safonau lles uchaf posibl ar eu cyfer. Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn falch iawn o’u hysgol. Maent yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni ac yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae ymddygiad bron bob un o’r disgyblion mewn gwersi, gwasanaethau, yn ystod amseroedd egwyl ac wrth fynd o amgylch yr ysgol yn dda iawn. Mae bron bob un yn ymdrin â’i gilydd gyda pharch ac maent yn dangos gofal canmoladwy at eu cyfoedion, er enghraifft wrth i’r disgyblion hynaf helpu’r rhai ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o’u lles emosiynol. Er enghraifft, wrth iddynt ddefnyddio'r ardal bwrpasol tu allan ar gyfer ymlacio a myfyrio ar eu meddyliau pan maent yn teimlo’r angen.

Mae ymagwedd bron bob disgybl at eu dysgu yn gadarnhaol. Maent yn canolbwyntio’n dda mewn gwersi am gyfnodau estynedig ac yn ymroi i’r dysgu yn gyflym wrth gyrraedd y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn dyfalbarhau wrth fynd ati i ddatrys problemau yn annibynnol ac maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau ymdopi os ydynt yn wynebu anawsterau. At ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy’n barod i ddysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd. Er enghraifft, maent yn gwybod sut i gadw eu cyfrineiriau’n ddiogel a sut i ymateb petai dieithryn yn cysylltu â nhw ar-lein. Mae ymweliadau cyson gan yr heddwas cymunedol i drafod diogelwch ar y we, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyffuriau yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o’r peryglon o’u cwmpas.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau da o ran bwyta ac yfed yn iach a sut mae hyn yn hybu eu hiechyd. Er enghraifft, maent yn mwynhau ac elwa o'r thema dosbarth 'O'r Pridd i'r Plât'. O'r cychwyn cyntaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn ac yn mwynhau dysgu yn yr awyr agored. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i ddatblygu medrau chwaraeon gwahanol yn ystod gwersi addysg gorfforol. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a chynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau chwaraeon amrywiol, er enghraifft hoci a chriced.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn ddinesydd moesegol ac egwyddorol. Er enghraifft, drwy astudio hanes Malala Yousafzai a'r heriau a wynebodd, maent yn dysgu am sefyllfaoedd anghyfiawn. O ganlyniad, maent yn dangos aeddfedrwydd wrth drafod materion yn ymwneud â chydraddoldeb, tegwch a hawliau dynol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol ac maent yn eu diwallu'n ymroddgar a phwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor eco yn frwdfrydig wrth hybu gofal am yr amgylchedd lleol trwy eu gwaith ar y prosiect 'Tacluso Tegryn'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau am beth yr hoffent ei ddysgu trwy eu profiadau a'u gweithgareddau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau bod bron bob disgybl yn mwynhau profiadau gwerthfawr sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn bwrpasol. Mae gan staff berthynas weithio hyfryd gyda disgyblion. Maent yn datblygu amgylchedd dysgu gynhyrchiol a chefnogol lle mae pwyslais ar ddarparu cyfle i bawb lwyddo. O ganlyniad, mae profiadau yn sicrhau ymglymiad a diddordeb bron bob disgybl. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n addas. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio a chynllunio'n bwrpasol i ddarparu arlwy ddiddorol ac ysgogol sy'n cyfuno llawer o'r meysydd dysgu.

Mae staff yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu hadnabyddiaeth a defnydd o eirfa benodol wrth drafod nodweddion a chynnwys cylchedau trydan. Cynllunnir cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau darllen y disgyblion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am sain gwahanol lythrennau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn adeiladu'n dda ar y sylfaen hon ac, erbyn brig yr ysgol, maent yn defnyddio uwch fedrau darllen fel sgimio a sganio yn hyderus. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ysgrifennu ar draws ystod o ffurfiau ysgrifenedig sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ailysgrifennu stori adnabyddus a'i phersonoli trwy ychwanegu geiriau o'u dewis eu hunain, fel modd cryno'r ferf. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn ysgrifennu portreadau diddorol sy'n cynnwys ansoddeiriau bywiog ac amrywiaeth o frawddegau er mwyn ennyn diddordeb y darllenwr. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws mwyafrif y meysydd dysgu. Darperir cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau digidol y disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio

fformiwlâu syml i luosi rhifau mewn taenlen wrth gyfrifo cost cydrannau amrywiol ar gyfer eu cylchedau trydan.

Mae athrawon yn cynllunio teithiau addysgol pwrpasol ac ymweliadau preswyl gwerthfawr i atgyfnerthu'r dysgu. Trefnir ymweliadau â mannau fel Castell Penfro ar ddechrau uned o waith thematig sy'n tanio dychymyg a chwilfrydedd naturiol y disgyblion yn llwyddiannus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu brwdfrydedd ac agweddau at ddysgu. Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i arbenigwyr ymweld â'r ysgol er mwyn hyrwyddo a datblygu medrau corfforol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gweld pwysigrwydd cadw'n heini a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd.

Ble mae'r addysgu ar ei fwyaf effeithiol, mae athrawon yn fodelau iaith da, yn cefnogi disgyblion i adalw dysgu blaenorol yn fwriadus ac yn darparu tasgau sy'n ennyn diddordeb bron bob disgybl. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus, yn ystyried eu hymatebion yn dda, gan newid cyfeiriad y dysgu yn ôl yr angen. Mae athrawon yn defnyddio technegau addysgu gwerthfawr er mwyn annog disgyblion i arbrofi â dulliau amgen o ddatrys problemau. Yn yr arferion addysgu llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau a phrofiadau dysgu yn cynnig digon o her ar gyfer ychydig or ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Mae cynorthwywyr yn atgyfnerthu amcanion yr ysgol yn fedrus wrth gefnogi disgyblion gyda'u gweithgareddau. Maent yn defnyddio ystod o raglenni'n effeithiol i hybu cynnydd a lles disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu bwrpasol, ddiddorol a symbylus yn ardal allanol yr ysgol. Mae staff yn darparu gweithgareddau cyfoethog yn yr ardal hon sy'n datblygu ystod eang o fedrau disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau corfforol a'u cryfder trwy ddefnyddio offer pwrpasol ac yn meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofod a chyfeiriad trwy ddehongli mapiau ar fwrdd llong y môr-ladron. Mae defnydd athrawon a chynorthwywyr o'r ardal dysgu allanol yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Ar adegau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith. Er hyn, mae'r adborth yn dueddol o ganolbwyntio ar ganmol ymdrech a chwblhau tasgau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wella mewn ystod o agweddau pwysig o'r gwaith. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cwblhau gwaith i'r safon uchaf bob tro, yn enwedig eu darnau ysgrifennu estynedig.

Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn gyson gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plant sydd o gymorth iddynt ddeall sut i'w cefnogi gartref. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd ar gynnydd disgyblion ac yn adnabod y camau nesaf yn y dysgu yn bwrpasol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos cyfeillgar, cynhwysol a chroesawgar yn cyfrannu'n gadarn at gefnogi disgyblion i ymfalchïo mewn perthyn i un teulu mawr. Mae pwyslais cryf ar barchu

eraill yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu disgyblion meddylgar sydd yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. O ganlyniad, mae ganddynt agweddau cadarn at eu gwaith, eu cyfoedion ac oedolion eraill yn yr ysgol. Mae gan staff adnabyddiaeth drylwyr o anghenion pob disgybl ac maent yn canolbwyntio'n amlwg ar ddiwallu eu anghenion er mwyn eu datblygu'n ddysgwyr cyflawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynhwysfawr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r holl staff, yn ddieithriad, yn ymroddgar tuag at ddiwallu eu cyfrifoldebau a bodloni anghenion pob disgybl. Mae staff yn casglu ystod o wybodaeth briodol am gynnydd disgyblion ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn bwrpasol. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gynnar. Mae staff yn mynd ati i ddarparu rhaglenni cefnogi bwriadus sy'n ymateb i anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ynghyd â chefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae cyswllt a chydweithio agos rhwng yr ysgol a'r cartref. Er enghraifft, mae rhieni'n chwarae rhan bwysig yn y broses o adolygu cynnydd eu plant ac yn mynd ati'n gyson i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n fwriadus ag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi'r ddarpariaeth ADY, er enghraifft y gwasanaeth seicoleg addysg ac athrawon arbenigol nam ar y golwg a'r clyw.

Darperir cyfleoedd addas i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain ac ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae disgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn datblygu medrau pwysig fel cydweithio a dyfalbarhad. Er enghraifft, mae'r 'Cyngor Cymreictod' yn mynd ati i annog eu cyfoedion i gymdeithasu yn Gymraeg yn yr ysgol trwy wobrwyo defnydd o'r Gymraeg a chyd-ddathlu llwyddiant yn y gwasanaeth ysgol gyfan.

Mae cyfnodau cyd-addoli yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gweithredoedd dydd-i-ddydd a'u heffaith ar eraill. Er enghraifft, maent yn ystyried pwysigrwydd bod yn ddiolchgar am yr hyn sydd ganddynt ac i ddweud diolch wrth eraill sydd yn eu helpu a'u cefnogi yn eu bywydau beunyddiol.

Mae amrywiaeth dda o brofiadau cyfoethog yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion ac yn dathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, yn dathlu Diwrnod Miwsig Cymru ac yn cystadlu mewn cwisiau cenedlaethol sy'n hybu dealltwriaeth o faterion diwylliannol a threftadaeth Cymru yn dda. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ymdeimlad cryf o bwysigrwydd dathlu eu hunaniaeth a'u diwylliant Cymreig.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, maent yn mynychu cystadlaethau criced, pêl-droed, hoci a'r ŵyl chwaraeon leol ar gyfer ysgolion bach. Mae'r gweithgareddau hyn yn hybu a datblygu ffitrwydd corfforol a meddyliol disgyblion yn ogystal â'u gwydnwch a'u gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro ac olrhain presenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni a'r swyddog lles yn briodol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â

phresenoldeb eu plant. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi sicrhau bod presenoldeb disgyblion yn yr ysgol wedi gwella dros amser.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan staff, disgyblion a llywodraethwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o sut i gadw pawb yn ddiogel ar y safle. Mae gweithdrefnau diogelu a iechyd a diogelwch yr ysgol yn gadarn ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu lles, hapusrwydd a'r profiadau dysgu gorau ar gyfer pob disgybl. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn ymroddgar a gweithgar iawn wrth iddynt ddarparu cwricwlwm sydd yn diddorol, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn talu sylw pwrpasol i gyd-destun yr ardal leol. Maent yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn fedrus. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn mwynhau eu dysgu.

Mae'r pennaeth yn cael ei gefnogi'n ddiflino gan dîm bychan o staff. Maent yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol a diffuant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae eu targedau'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Mae cyswllt rhesymegol rhwng y nodau hyn a gweithgareddau dysgu proffesiynol; er enghraifft, mae aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ar gyfer datblygu llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleodd effeithiol i gydweithio ag ysgolion lleol, er enghraifft trwy rannu arferion da ynghylch sut mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal tu allan i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae'r trefniadau'n cynnwys amrediad da o bartneriaid fel staff, llywodraethwyr, a disgyblion. Mae arweinwyr yn casglu ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol ac maent yn dadansoddi'r canfyddiadau yn ofalus. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau'r  ysgol a'r meysydd i'w gwella. Trwy hyn, maent yn adnabod blaenoriaethau gwella sy'n rhoi sylw perthnasol i'r materion sydd angen eu gwella ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol yn bwrpasol. Er enghraifft, wrth i staff ddatblygu medrau llafar disgyblion yn Gymraeg, a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro bob tro'n  canolbwyntio'n ddigon bwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod ymroddedig ac angerddol dros yr ysgol ac maent yn chwarae rôl bwysig yng ngweithdrefnau gwella'r ysgol wrth ymweld yn rheolaidd ac ymgymryd â gweithgareddau monitro defnyddiol. Er enghraifft, maent yn arsylwi sesiynau dysgu ac yn cynnal awdit o gyflwr yr adeilad a diogelwch y safle. Mae'r llywodraethwyr yn rhagweithiol wrth fynd ati i wella effeithiolrwydd y prosesau hunanwerthuso, er enghraifft wrth iddynt ailddylunio dulliau cofnodi tystiolaeth ar gyfer ymweliadau â'r ysgol. Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol i'r corff llywodraethol. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr afael addas ar gryfderau'r ysgol ynghyd â ble mae angen gwneud gwelliannau. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau perthnasol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n ofalus, er enghraifft wrth iddynt ad-drefnu a rhesymoli strwythur staffio'r ysgol wrth wynebu sefyllfa heriol y gyllideb. Mae unrhyw wariant yn cael ei fonitro'n agos gan arweinwyr ac mae cyswllt pwrpasol rhwng eu penderfyniadau gwariant a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Defnyddir arian grantiau, er enghraifft y grant datblygu disgyblion, yn briodol wrth ddarparu cefnogaeth emosiynol i ddisgyblion er mwyn hybu eu lles. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau dysgu addas ar gyfer pob dosbarth a bod cyfyngiadau cyllidebol yn cael yr effaith leiaf posibl ar brofiadau dysgu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2023